# y DINESYDD

TACHWEDD 1995 | "LLAIS Y GYMUNED" | RHIF 213

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH

# MÔR O GÂN YW'R BBC

**BETH AMSER yn ôl ymddangosodd stori yn *Y Cymro* ynghylch newidiadau mawr ymhlith Corws Cymreig y BBC. Gofynnwyd i'r côr-feistr, John Hugh Thomas ymddiswyddo a hefyd y cyfeilydd, Richard McMahon. Roedd hyn am fod Cyfarwyddwr Cerddorfa Genedlaethol Cymreig y BBC, Huw Tregelles Williams am weld pennod newydd, gyffrous yn hanes y corws yn cychwyn.**

*Mae **MARY JONES** wedi bod yn aelod o'r corws ers blynyddoedd ac yma mae'n rhoi cipolwg ar ddatblygiadau'r dyfodol.*

Mae Corws Cymreig y BBC i gael enw, arweinydd, cyfeilydd a delwedd newydd erbyn yr hydref. Y nod yw cael côr o ryw 150 o aelodau ac mae'r cyfweliadau eisoes wedi dechrau.

Ym 1983 sefydlwyd y côr presennol, i fanteisio ar y galw roedd pobl fel Mervyn Williams ac eraill yn ei ragweld am gôr mawr yn sgil agor Neuadd Dewi Sant y flwyddyn honno. Un o berfformiadau mawr cyntaf y côr oedd Elias Mendelssohn yn Neuadd Dewi Sant ac Aled Jones yn canu rhan y Bachgen. Hwnnw, mae'n sicr, oedd y perfformiad a fu'n gyfrwng i ddod ag Aled i sylw'r byd canu clasurol y tu allan i Gymru.

### Diben y newid cyfeiriad

Diben y newid cyfeiriad hwn nawr yn hanes y côr yw ei alluogi i fanteisio ar yr enw gwych mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC wedi ennill iddo'i hun ar hyd a lled y byd. Y gobaith yw y bydd Côr Cenedlaethol Cymreig y BBC yn cael perfformio lawer yn amlach gyda'r gerddorfa y tu allan i Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd, lle mae'r rhan fwyaf o waith y côr wedi canolbwyntio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

### Rhai newydd wrth y llyw

Simon Halsey yw'r cyfarwyddwr newydd a Simon Partington y dirprwy gyfarwyddwr a'r cyfeilydd. Mae'r naill a'r llall yn gysylltiedig â chorau yn Birmingham a Llundain ac wedi gweithio gyda Chorws Cymreig y BBC yn y gorffennol. Paratoi'r côr yw eu gwaith nhw ac fel rheol bydd arweinwyr y perfformiadau'n arweinwyr o fri. Yn y gorffennol mae'r côr wedi cael y fraint o ganu dan arweiniad pobl fel Andrew Davis, Roger Norrington, Raphael Frubeck de Burghos a Jane Glover. Bydd Bryn Terfel yn canu gyda'r côr yn aml iawn, yn ogystal ag enwau mawr eraill fel Anthony Rolfe-Johnson, Sarah Walker a nifer o enillwyr cystadlaethau Canwr y Byd Caerdydd.

### Beth am ymuno â ni?

Oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r côr newydd? Mae nifer fawr o Gymry Cymraeg yn perthyn i'r côr erioed a chydag enw a delwedd Gymreig newydd byddai'n dda iawn gweld rhagor eto o aelodau Cymraeg yn rhengoedd Cor Cenedlaethol Cymreig y BBC.

Ar nos Fawrth mae'r côr yn ymarfer fel rheol, yn un o stiwdios y BBC yn Llandaf. Ond bydd rhaid cael ymarferiadau ychwanegol cyn perfformiad, wrth gwrs. Gall hynny olygu ychydig deithio ond caiff popeth ei drefnu drosoch - bws, prydau bwyd, copiau a llety pan fydd angen, a'r cyfan sydd raid i chi ei wneud yw dysgu'r gwaith, dod â'ch copi, rhoi'ch gwisg arbennig amdanoch, a chanu. Nawr beth allai fod yn fwy dymunol na hynny?

Ysgrifennwch at weinyddwraig y côr yn Ystafell G043, Canolfan Ddarlledu'r BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ am ragor o fanylion.

### Y RHIFYN HWN A'R RHIFYN NESAF

**Rydyn ni wedi gorfod wynebu problemau hollol annisgwyl gydag argraffu'r rhifyn hwn (Tachwedd) a daw atoch yn rhy hwyr o lawer, a'r rhifyn nesaf (Rhagfyr — rhifyn y Nadolig). Yn y wasg yr oedd y broblem. Rydyn ni'n dal heb dderbyn proflenni (na lluniau) rhifyn Tachwedd ond ar rybudd byr iawn, cytunodd gwasg yng Nghastellnedd i osod y cyfan wrth ei gilydd mewn byr amser. Oherwydd y brys, ni chywirwyd y proflenni ac anghofiwyd am bob acen grom a gosod. Maddeuwch inni am hyn, os gwelwch yn dda. Fe fydd pethau'n well (gyda'r wasg newydd) gyda'r rhifyn nesaf a fydd gyda chi cyn i'r ysgolion gau.**

# y DINESYDD

Tachwedd 1995. Rhif 213.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i dyluniwyd gan Wasg Nedd, Castell-nedd, ac fe'i argraffwyd gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.



### Y TÎM GOLYGYDDOL

*Dyma dîm golygyddol y rhifyn hwn. Anfonwch bob deunydd ato fel a ganlyn erbyn y cyntaf o'r mis bob amser:*

**Mrs Tegwen Evans,** 6 Ridgeway, Llysfaen, Caerdydd CF4 5RR (754559): newyddion cyffredinol.

**Mr B D Harries,** 6 Lakeside Drive, Caerdydd (756562): newyddion byd addysg.

**Mr Wyn James,** 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): newyddion Yr Eglwys Newydd.

**Mr W J Jones,** 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282) (Ffacs: 578106): cyffredinol.

*Anfonwch newyddion am chwaraeon at:*

**Mr Tom Davies,** 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).

*Anfonwch newyddion yr eglwysi at:*

**Y Parchedig Gwilym E Davies,** 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811).


### HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw siaradwyr Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, byddwch gystal â chysylltu **â Mr W J Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd CF4 4HW. Ffôn: 01222 756282.**

Pleser yw diolch i ddwy gymdeithas a gyfrannodd at ein coffrau yn ddiweddar. Cawsom rodd o £50 gan Gylch Cinio Cymreig y Barri a daeth rhodd o £20 oddi wrth Gymrodorion Caerdydd.


Diolch hefyd i Mrs Margaret Evans, 36 Heol Lady Mary, Parc y Rhath, am rodd o £10.

### Y DYFODOL

Ein huchelgais yw cael Y Dinesydd ichi mor agos ag sy'n bosibl at y cyntaf o bob mis. Oherwydd hyn, nodir uchod bod yn rhaid gael unrhyw ddeunydd **cyn neu erbyn y cyntaf o bob mis blaenorol at un o'r bobl uchod.**

## GOFALU AM BLANT BACH

Mae cylch chwarae llewyrchus iawn ym Mhen-twyn gyda deuddeg o blant yn mynychu'r lle'n rheolaidd. Mae angen dau berson i ofalu amdanyn nhw. Mae un eisoes yn gwneud y gwaith ond yn anffodus mae'n ddiGymraeg. Mae angen un arall sy'n barod i roi dau fore'r wythnos, dim ond i eistedd gyda'r plant wrth iddyn nhw chwarae eu chwaraeon a siarad â nhw yn Gymraeg. Mae'n ddyletswydd arnon ni, Gymry Cymraeg, wneud ein gorau i helpu'r plant bach yma a'u rhieni i groesi'r bont. Bydd y gwaith yn ardderchog i rywun sydd wedi ymddeol; cyfle i fod yn blentyn eilwaith ymhlith to ifanc ein dyfodol. Cysylltwch yn y lle cyntaf a Mr W J Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd 01222 756282.




## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â theulu Mr Wyn Morris, Heol Lady Mary, a fu farw yn Ysbyty'r Mynydd Bychan yn ddiweddar. Roedd yn briod a'r ddiweddar Tegwen Clee, gynt o Ystalyfera. Fe fu gwasanaeth hyfryd i gofio amdano yng Nghapel Minny Street ar ddiwedd y mis.

## AELWYD HAMDDEN CAERDYDD

Apel yw hon ar ran Aelwyd Hamdden Dinas Caerdydd. Mae'n dathlu ei phumed pen-blwydd ac fe'i sefydlwyd i roi cyfle i Gymry Caerdydd gwrdd a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dros drigain o enwau ar y llyfrau ar hyn o bryd ac mae'n llenwi bwlch mawr ym mywydau'r aelodau rhai ohonyn nhw heb fedru gadael eu cartrefi oni bai fod cludiant ar gael iddyn nhw.

Mae'r gwaith gweinyddu'n trymhau ar ysgwyddau ychydig o bobl. Tybed a all y rhai sydd wedi ymddeol ddod i'r adwy i roi cymorth am ddwy awr (yn unig) bod yn ail ddydd Mercher ac i fwynhau hamddena? Bydd hyn yn sicrhau dyfodol cymdeithas unigryw yn y ddinas. Codwch y ffon a chysylltwch a'r cadeirydd, Mr Iwan Jones, Caerdydd 752727.

## CYFFRO CAERDYDD

**Denzil Ieuan John**

Ym mis Medi eleni daeth tua 135 o eglwysi Caerdydd ynghyd i ffurfio cenhadaeth a geisiodd gymryd y gwaith o efengylu yn ddifrifol. Rhannwyd y ddinas a'r fro o gwmpas yn ardaloedd cenhadol gan wahodd cenhadwr i arwain yr eglwysi yn y gwaith. Roedd gan bob cenhadwr dim o wirfoddolwyr a neilltuodd eu gwyliau er mwyn cefnogi'r fenter. Roedd nifer o'r rhain wedi cael profiad o weithgaredd tebyg yn Lloegr ac yn meddu ar amrywiaeth o ddoniau cyflwyno'r Ffydd, ac yn eu plith roedd cantorion ac actorion proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, arlunwyr a "dihangolion". Daeth band roc i lawr o Gaer-lyr ac i'r noson fawr yn yr Arena Rhyngwladol, cawsom gwmni Steve Chalk, Helen




Shapiro, Inga Tuigamala, Graham Kendrick, cwmni drama'r Riding Lights, ynghyd a chor Cambrensis. Roedd dros bum mil o bobl yn bresennol i ddathlu eu ffydd yn Iesu ac i orfoleddu yng nghwmni ei gilydd.

Cynhaliwyd dros fil o weithgareddau amrywiol yn sgil "Cyffro Caerdydd" yn ystod y pythefnos, heb son am y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn arwain at y pythefnos ym Medi. Ym mhob un o'r rhain roedd cardiau i'w dosbarthu yn gwahodd pobl i ymholi am y Ffydd a'r nod fydd ymateb i bob ymholiad gan obeithio ennill pobl o'r newydd i berthynas fyw a Christ.

Y Canon Michael Green oedd prif arweinydd y genhadaeth, gwr sydd a'i ddoniau efengylu'n eithriadol iawn. Mae'n Ymgynghorydd Efengylu yr Eglwys Wladol yn Lloegr. Roedd ei bwyslais ef ar gyfarfodydd bychan, gan roi cyfle i'r fyddin o genhadon wynebu'r di-gred a rhannu eu ffydd. Y nod oedd dosbarthu llenyddiaeth i bob ty, a gweddio drostyn nhw ar gornel pob stryd. Lle byddo ein gweddi, yno bydd ein tystiolaeth hefyd. Mae'n anodd dyfalu beth fydd effaith y genhadaeth hon ar Gaerdydd dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod, ond fe welwyd eisoes bobl yn dod i brofiad o ras, ac yn derbyn Iesu'n Arglwydd. Un o'r gwyrthiau oedd bod yr eglwysi efengylaidd a'r eglwysi rhyddfrydol eu naws yn dathlu gyda'i gilydd mewn addoliad ac yn deffro i'r ffaith mai un Eglwys sydd a'n bod ni, er ein hamrywiadau, yn gyd-aelodau ohoni.'

## WILLIAM JONES YN Y SHERMAN

Mae gan lawer o ddinasyddion Caerdydd galon gynnes i William Jones gan mai yn y ddinas y cafodd ei eni. Pan oedd T Rowland Hughes yn bur wael yn ei gartref ger y llyn yr ysgrifennodd y nofel a daeth yn boblogaidd yn syth. Cyn hir, roedd pawb yn gyfarwydd a'r frawddeg, "Cadw dy blydi chips," ond brawddeg ysywaeth fyddai'n ddigon dof rhwng cloriau llyfr erbyn hyn.

Doedd ryfedd felly bod y theatr fawr yn llawn dop y noson y gwelodd y Dinesydd y perfformiad ac roedd y chwerthin cyson ac uchel yn brawf iddyn nhw gael blas ar yr arlwy.

Addasiad llac iawn o'r nofel a gafwyd ac roedd y bobl a wyddai'r stori ar eu hennill, er mai tenau yw stori William Jones. Nid yn y stori y mae ei nerth.

Torrwyd tameidiau o'r gwaith i fyny'n nifer o olygfeydd man, a rhai'n llwyddo'n well na'i gilydd, ond roedd y techneg "teledu" yma'n dechrau mynd yn fwrn yn y diwedd, er gwaethaf perfformiadau clodwiw gan yr actorion. Roedd sawl golygfa'n gameo bychan, ac ambell un yn llifo i'r llall yn gelfydd, ond doedd rhai eraill, fodd bynnag, ddim fel pe baen nhw'n ffitio i'r cyfanwaith, yn enwedig os oedd blas ffars arnyn nhw. Ond dangosodd y cynhyrchiad a'r addasiad beth ellir ei wneud y dyddiau hyn gydag effeithiau theatrig.

Noson ddifyr oedd hon, ac rwy'n rhyw feddwl y byddai "y dewraf o'n hawduron" wedi cael ei blesio ar y cyfan.

## DANIEL OWEN YM MINNY STREET

Cafodd Cymdeithas Lyfryddol Caerdydd gychwyn llewyrchus i'w rhaglen aeaf ddiwedd Medi pan ddaeth Dr Robert Rhys o Brifysgol Abertawe i'n hannerch ar "Datblygiad Daniel Owen y Llenor." Roedd festri Capel Minny Street yn gyffyrddus lawn i wrando arno. Cafodd pob un ohonom darlun craff a byw o Ddaniel Owen yn ei gyfnod a'i gynefin a gwelwyd dymchwel nifer o ddamcaniaethau'r gorffennol. Dechreuwyd a Daniel yn bymtheg oed a daethpwyd i ben yn rhy gynnar o lawer a yntau ar fin dechrau ysgrifennu ei ail nofel. Bydd y rhai hynny ohonoch na lwyddasant i fod yno yn medru darllen y cyfan pan gyhoeddir y gwaith yn llyfr yn y gyfres "Dawn Dweud" gan Wasg Prifysgol Cymru. Cadeiriwyd y noson gan W J Jones.

Mae gan y Cylch raglen ddiddorol o gyfarfodydd. Efallai y carech eu rhoi yn eich dyddiadur gan fod croeso i bawb ymuno ag e.

**17 Tachwedd:** "Llenyddiaeth y Traddodiad Heddwch yng Nghymru" gan Y Parchedig Dewi Eirug Davies.

**19 Ionawr:** "Cyhoeddi yn y Gymraeg, 1546 -1996", R Brinley Jones, Llanymddyfri

**16 Chwefror:** "Cyhoeddi Heddiw ac Yfory" Ned Thomas, Gwasg y Brifysgol, Caerdydd.

**15 Mawrth:** Noson yr Awduron o dan ofal D Gwyn Jones. Gwahoddir awduron lleol i'r noson hon i ddweud gair o brofiad.

## MÔR O GÂN YW CANNA I GYD

*Gair gan yr arweinydd* — **Delyth Medi.**

Erbyn hyn mae Côr Merched Canna yn flwydd a hanner. Mae'r amser wedi hedfan ers y cyfarfod cyntaf hwnnw yng nghanolfan yr Urdd i geisio cychwyn cor merched yn y ddinas. Cystadlu yn Eisteddfod Castell-nedd 1994 oedd y bwriad ar y cychwyn ond fe dyfodd y diddordeb wrth i griw o ffrindiau fynd ati i ganfasio.

Fe ddechreuodd yr ymarferion o ddifrif yn ystod Mai 1994. Daeth nifer o ferched ynghyd, rhyw ddeg ar hugain i gyd, a'r rheiny'n dod o bob cwr o'r ddinas, ac o amrywiaeth o wahanol feysydd - rhai'n athrawon, rhai'n ysgrifenyddion, cyfreithwyr, mamau amser llawn, a rhai'n gweithio gyda'r cyfryngau, eraill mewn byd busnes a masnach ac ati.

Rydyn ni'n gymysgwch o Gogs a Hwntws, lobscows o gor fel y gellwch feddwl, ac mae lot o sbort i'w gael yn yr ymarferion gydag ambell i ges yn dod i'r golwg bob hyn a hyn. Rydyn ni eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn y byd cystadlu - fe enillon ni drydedd wobr i gorau merched yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd a hynny ar ein cynnig cyntaf, ac eleni ym Mae Colwyn, fe enillon ni wobr gyntaf a chael beirniadaeth glodwiw iawn.

Mae nifer o bethau ar y gweill gyda'r cor o hyn tan y Nadolig. Rydyn ni ar hyn o bryd yn ymarfer i berfformio ein canu cerdd dant fel y gallwn gystadlu yr yn Wyl Gerdd Dant ym Mro Ogwr ar Dachwedd 11eg. Trip bach wedyn ar Dachwedd 25ain i Gaerloyw i ddiddanu'r Gymdeithas Gymraeg yno ac yna yn Rhagfyr rydyn ni'n un o'r artistiaid yng ngwasanaeth blynyddol yr Urdd yn Eglwys Dewi Sant = cofiwch y dyddiad, y 10fed o Ragfyr. - a'r rhaglen, "Cân y Nadolig." Felly mae amser prysur o'n blaenau.

Ond os oes gan rai ohonoch chi ddarllenwyr ddiddordeb mewn ymuno a Merched Canna, croeso ichi alw draw ar nos Lun am 7.30pm yng Nghanolfan yr Urdd. Dyna pa bryd rydyn ni'n ymarfer. Os carech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a mi, Delyth Medi ar 01222 553486. Fe fyddaf yn edrych ymlaen at groesawu aelodau newydd i'r ymarfer cyntaf wedi ichi orffen darllen hyn o lith.

## CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD

Mae'r Cylch hwn yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien. Daw nifer da o wragedd Caerdydd a'r cylch i'n cyfarfodydd a gynhelir ar yr ail nos Iau ym misoedd Tachwed, Ionawr, Mawrth Mai.

Yn ystod 1994-95 cawson siaradwyr neu westeion diddorol a dymunol i'n difyrru a'n hysgogi sef Eluned Morgan, W J Jones, Rhiain Phillips, Dafydd Islwyn ac Owenna Hopwood. Ac fe fydd gwledd yn ein disgwyl yn y tymor newydd eto, rwy'n siwr.

Y tro cyntaf wedi i'r rhifyn hwn o'r Dinesydd ymddangos byddwn yn cyfarfod ar 9 Tachwedd a bydd Miss Bethan Vaughan Cartwright yn ein hannerch.

Mae croeso i aelodau newydd (ifanc ac nid mor ifanc) i ymuno â ni. Ffoniwch Caerdydd 754960 i roi eich enw neu i gael rhagor o fanylion.

## CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD

Sefydlwyd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd ym 1951 ac mae wedi cyfarfod yn rheolaidd ers hynny. Ar hyn o bryd mae'n cwrdd yng Ngwesty'r Parc a hynny ddeg gwaith y flwyddyn (bob mis ar wahan i fisoedd Awst a Medi). Maen nhw'n cwrdd ar nos Lun cyntaf bob mis. Gellir disgwyl i fyny at 25 yn troi allan i fwyta a gwrando ar siaradwyr gwadd. Y llywydd sy'n trefnu'r siaradwyr a'r llywydd y tymor hwn yw Mr Gwynedd Pierce.

Yn ychwanegol at fwyta, mae'r Clwb yn cyfrannu at achosion da - eisteddfodau a mudiadau, a hefyd yn noddi dysgwyr. Os carech gael mwy o newyddion, cysylltwch a Tony Couch, Ysgrifennydd y Cylch, Caerdydd 753625

## GWYL LENYDDIAETH CAERDYDD

Prin iawn yw'r eitemau Cymraeg yng Ngwyl Lenyddiaeth Caerdydd, ond ar ddechrau mis Hydref gwahoddwyd y beirdd Menna Elfyn ac Ann Drysdale i adrodd rhai o'u cerddi yng Nghanolfan lyfrau Oriel. Cafwyd awr ginio ddifyr a hwyliog yng nghwmni'r ddwy. Canolbwyntiodd Menna Elfyn ar ei chyfrol (ddwyieithog) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef Eucalyptus, cyfrol ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n caru darllen cerddi yn ogystal a'r Cymry Cymraeg.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

Un o Gymdeithasau Cymraeg mwyaf llewyrchus y ddinas yw Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Er ei bod wedi'i lleoli ym "mhentre'r ardd" mae croes i bawb fynychu'r digwyddiadau. Oherwydd hyn, beth am roi'r dyddiadau hyn yn eich dyddiadur?

**6 Tachwedd:** Noson Werin yng nghwmni Eirlys Parri.
**4 Rhagfyr:** Hosan Nadolig.
**15 Ionawr:** Gair o'r tu hwnt i'r llen gan T J Davies.
**5 Chwefror:** Noson yng nghwmni Idwal a Mair Hughes.
**4 Mawrth:** Noson Cawl a chân.
**10 Mawrth:** Yn eglwys Beulah am 8.00, Cymanfa ganu o dan arweiniad Alun Guy.
**1 Ebrill:** Eisteddfod Ffwl Ebrill.
**20 Mai:** Cyfarfod blynyddol ac anerchiad gan Eleri Morgan.
**3 Mehefin:** Gwibdaith.
**1 Gorffennaf:** Swper pen tymor. Cewch wybod ble eto.

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, i ddechrau am

7.30 o'r gloch. Gallwch gael unrhyw wybodaeth bellach gan yr Ysgrifennydd, E Haydn Lewis, 2 Heol Wen, Rhiwbeina.

## CYNGOR CYMRU AR ALCOHOL

Mae'r cyngor uchod yn gwneud gwaith da i helpu'r rhai sy'n dioddef o achos cymryd cyffuriau ac alcohol, ond mae'r cyngor ei hun wedi dioddef problem sy'n gyffredin iawn yn y ddinas yn ddiweddar, gwaetha'r modd. Mewn cyfnod o dri mis, mae lladron wedi torri i mewn i'w siop yn 112 Heol Albany dair gwaith a dwyn cyfarpar cyfathrebu gwerthfawr. Mae'r cyngor yn dweud bod hyn wedi lleihau cryn dipyn ar eu heffeithlonrwydd ac mae'r cyfan yn dreth ar adnoddau ariannol prin.

## CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cynnig ysgoloriaethau i annog awduron profiadol a rhai newydd i ganolbwyntio ar eu gwaith ysgrifennu am gyfnod. Mae'n croesawu syniadau oddi wrth awduron sy'n awyddus ysgrifennu yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn 1 Ebrill 1996. Cynigir ysgoloriaeth arbennig i awdur sy'n ysgrifennu ar gyfer plant a phobl ifainc i gofio am Irma Chilton. Fe ystyrir ceisiadau am grantiau tuag at unrhyw anghenion hyfforddi arbennig sy'n gysylltiedig ag awduron anabl.
Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 11 Rhagfyr 1995.
Fe gewch ffurflenni cais a manylion ynghylch sut i ymgeisio gan Emyr Williams, Swyddog Llenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, Caerdydd.

## GYRRWR ANABL GORAU CYMRU AM ELENI

Dioddefodd Margaret stroc 13 blynedd yn ol a barlysodd ei hochr ond doedd hynny ddim yn rhwystr iddi.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth hon yn Brands Hatch ac roedd yn rhaid i'r cystadleuwyr ddangos eu bod yn gallu gyrru'n fedrus a gofalus ac roedd un o'r Institute of Advanced Motorists yno i gadw llygad craff arnyn nhw. Roedd pedwar ugain wedi cychwyn ar y gystadleuaeth nodedig hon.

# OS HOFFECH WYBOD SUT...

I lawer ohonom mae Cystadleuaeth Canwr y Byd wedi dod i ben am gyfnod eto, ond i un person arbennig yn y ddinas nid yw ond megis dechrau gan ei bod hi'n edrych ymlaen yn barod at y gystadleuaeth nesaf ac wedi hen ddechrau cynllunio.

Ond fe gaiff **Mary Jones** adrodd stori Anna Williams o Benfro.

Ydych chi wedi dyfalu erioed sut mae cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd yn cael ei threfnu, a phwy sy'n gwneud hynny? Wel,efallai y byddech chi'n synnu clywed bod llawer iawn o'r gwaith trefnu'n cael ei wneud o fferm Fern Villa, Llandisilio ger Hwlffordd oherwydd yno mae cartref Anna Williams, trefnydd y gystadleuaeth.

Bu Anna yn gweithio ar y gystadleuaeth ers dechrau 1983 ond ers 1989 hi'n unig sy'n trefnu'r digwyddiadau. Mae llawer iawn o bobl yn methu credu mai un ferch ifanc sy'n gyfrifol am yr holl gynllunio a'r teithio a'r trefnu, ond fel y bydd hi'n dweud "os byddwch chi'n gyfrifol am y cyfan, fe fyddwch yn gwybod ei fod wedi ei wneud - ac mae'n rhatach!"

**CRWYDRO BYD**

Trwy gysylltu â chwmniau opera a phenaethiaid cerdd mewn gwledydd eraill y bydd hi'n cael awgrymiadau ar gyfer y cystadleuwyr ac wedyn bydd clyweliadau'n cael eu cynnal mewn gwahanol ddinasoedd, fel Vienna a Stockholm.



*Anna Williams*

Wedyn bydd hi'n trefnu i'r cystadleuwyr ddod i Gymru. Bydd rhai o'r unawdwyr o Awstralia neu China, er enghraifft, yn cyrraedd tuag wythnos ymlaen llaw, ond y gweddill ryw bedwar diwrnod cyn y gystadleuaeth er mwyn dechrau ymarfer. Maen nhw i gyd yn aros yn yr un gwesty ac mae hynny'n help mawr iddyn nhw ddod yn gyfarwdd â'r lle ac a'r wlad, ac yn help i dawelu'r nerfau hefyd, mae'n siwr.

**DYSGU CYMRAEG**

Pan ofynnwch iddi pwy mae hi'n ei gofio orau o'r holl unawdwyr sydd wedi cymryd rhan, mae'n ei chael yn anodd sôn am unrhyw un penodol. Ond mae'n cofio cael llawer o sbri gydag ambell un. Er enghraifft roedden nhw wedi dysgu ychydig Gymraeg i un cystadleuydd o Fwlgaria ac un arall o Wlad Pwyl. Roedd y ddau'n ddynwaredwyr penigamp a chafwyd llawer iawn o hwyl yn gwrando ar y ddau hyn yn tynnu coes ac yn chwarae'r ffyliaid gyda'u hacenion Cymraeg.

Cyn gynted ag y daw Canwr y Byd i ben bydd Anna'n pacio'i bagiau ac yn mynd i Wyl Caeredin, lle mae'n gofalu am yr artistiaid cerdd.

# YSGOL MYNYDD BYCHAN

## MABOLGAMPAU LLWYDDIANNUS

**Cynhaliwyd mabolgampau llwyddiannus iawn ar gae Tŷ'r Cwmniau ar 12 Gorffennaf. Roedd Mr Steve Smith, un o weithwyr Ty'r Cwmniau, wedi trefnu bod y trac yn cael ei farcio ar ein cyfer - gosodwyd byrddau a chadeiriau ar y cae a hefyd ffotograffydd proffesiynol i dynnu lluniau'r rasys. Cawsom ddiwrnod arbennig - rasys o bob math i bawb, yn cynnwys y rhieni, plant yr ysgolion meithrin a ffrindiau i ymuno yn yr hwyl. Paratowyd barbeciw gan y Gymdeithas Rieni a chafwyd diwrnod i'r brenin.**



*Ysgol hapus.* *Diolch i Blake's Freelance Photo Services am gael caniatad i atgynhyrchu'r llun hwn. LLUN: Peter Blake*

## Yr ysgol yn dal i dyfu

Croesawyd dwy athrawes newydd a thri deg un o blant i'r dosbarth derbyn eleni a chwyddo teulu hapus Mynydd Bychan. Bwriedir cynnal agoriad swyddogol yn y dyfodol agos.

## Cyffro Caerdydd yn yr ysgol

Ar ddechrau'r tymor yma daeth aelodau o "Cyffro Caerdydd" atom ac ymuno yn ein gwasanaethau. Mwynhawyd eu cyflwyniad brwdfrydig gan bawb.

## Sŵ'r ysgol

Erbyn hyn mae gennym nifer o anifeiliaid anwes yn yr ysgol, gerbil, bochdew a physgod aur. Caiff pob plentyn gyfle yn ystod y flwyddyn i ofalu amdanynt yn eu cartrefi ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Hyd yn hyn dychwelwyd hwynt yn fyw ac yn iach ar bob bore Llun! Pwy a wyr pwy arall ddaw i'n plith gan fod Blwyddyn 1 yn dilyn thema "Pethau Byw" ar hyn o bryd! Trefnir ymweliad gyda'r "City Farm" yn y dyfodol agos.

## Ffair haf i bawb

Cynhaliwyd y ffair haf ar 1 Gorffennaf. Roedd pawb wrth eu bodd yn prynu o'r stondinau lu a oedd yn gwerthu cacennau, teganau, dillad ail-law, planhigion, hetiau a bagiau ysgol. Cafwyd cyfle hefyd i beintio wynebau, plethu gwallt a gwneud bathodynnau ac ymweld a'r castell bownsio. Ac ar ol yr holl weithgaredd roedd bwyd yn y caffi neu bice ar y maen a goginiwyd yn ystod y ffair a chyfle i eistedd yn yr haul i'w mwynhau.

Cefnogwyd y ffair gan bobl o'r ardal leol yn ogystal a rhieni, perthnasau a ffrindiau. Gwnaed elw sylweddol o ystyried mai ysgol ddau ddosbarth oeddem ar y pryd.



*Yn rhifyn Hydref o'r Dinesydd, cyfeiriwyd at daith lwyddiannus tim rygbi Glantaf i Awstralia. Dyma gip ar yr antur trwy lygaid dau o'r disgyblion,*

**Dafydd Harries a Rhodri Llywelyn.**

# Y DA, Y DRWG A'R RYGBI

Pan soniwyd gyntaf am daith i ben draw'r byd ddwy flynedd yn ol doedd hi'n ddim ond breuddwyd i'r bechgyn yng ngharfan rygbi Ysgol Glantaf, ond eleni, yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst gwireddwyd y freuddwyd.

### ENNILL AR ÔL COLLI

Roedd y garfan yn gymysgedd o fechgyn blynyddoedd 11 a 12 ac 13 ac wedi eu rhannu'n ddau dim - y bechgyn dan 16 a'r rhai dan 18. Dechreuwyd y daith yn Bangkok, dinas hynod o ddiddorol a chafodd y bechgyn nifer o brofiadau newydd, ar y cae ac oddi arno. Collwyd y gem agoriadol yn erbyn tim o blismyn o dan hyfforddiant ond roedd amheuon am oedran rhai ohonyn nhw!!

Wedi'r siom o golli yno, sylweddolodd y bechgyn y byddai'n rhaid dechrau perfformio yn Awstralia er mwyn sicrhau llwyddiant y daith. A dyna beth a wnaethpwyd. Enillodd y ddau dîm yn gyffyrddus ym Melbourne gan osod sylfaen gadarn i weddill y daith i fyny arfordir dwyreiniol Awstralia.

Cyn mynd roedd hi'n amlwg taw y taleithiau rygbi traddodiadol, sef De Cymru Newydd a Queensland fyddai'r her fwyaf fyddai'n ein disgwyl a hynny yn erbyn ysgol uwchradd Sydney ac Ysgol Ramadeg Brisbane. Wynebwyd yr her ac enillwyd y ddwy gem gan ysgogi dathliadau mawr ymysg y bechgyn a'r hyfforddwyr. Yn ogystal a hyn daeth buddugoliaeth yn Cairns ond collwyd unig gem arall y daith, yn y Gold Coast gan adael record gampus o chwarae saith ac ennill pump.

### CYMYSGIAD O BROFIADAU

Gwelwyd y gwrthgyferbyniad eang mewn profiadau yn ystod y tair wythnos oddi cartref, yn amrywio o amgylchfyd llygredig y trydydd byd yn Bangkok i harddwch naturiol y Barrier Reef. Ymwelwyd â rhai o adeiladau enwocaf y byd megis Maes Criced Melbourne (MCG) a Thŷ Opera Sydney ac mae'n siwr fod cwmniau megis Kodak wedi gwneud busnes da o'r holl luniau a dynnwyd gan y bechgyn.

Ni fyddai'r daith wedi bod yn bosibl heb waith diwyd rheolwr y daith, Mr Keri Evans, yr hyfforddwyr, Mr Peter Manning, Mr John D Hayes a Mr Hywel Marshall

*I dudalen 8*

***O dudalen 7***

ac wrth gwrs ein rhieni am dalu am ein tocynnau i'n galluogi i fynd ar daith fythgofiadwy.
Roedd yn daith arall i barhau traddodiad Ysgol Glantaf o ymestyn ei gorwelion a phrofi yn helaeth o gymdeithasu a phobl o bedwar ban y byd. Gobeithiwn y bydd y traddodiad yn parhau.

# FY YSGOL NEWYDD

**BETHAN NIA THOMAS**

Dyma ysgol ryfedd yw Glantaf. Rwy'n teimlo fel morgrugyn bach yng nghanol yr holl bobl. Mi ddilynaf i bawb i mewn i'r neuadd. Rwy'n siwr y byddaf yn gallu ffeindio rhywun rydw i'n ei adnabod. Mae'r neuadd yn edrych fel theatr anferth o'i chymharu a neuadd fy ysgol gynradd. Shhh! Dyma'r athrawon yn galw'r dosbarthiadau. O! Diolch byth, rydw i gyda pedair o'm ffrindiau.
Wel, ar ol dringo beth oedd yn teimlo fel miloedd o risiau rydyn ni wedi cyrraedd ein hystafell ddosbarth. Rwy'n siwr y cawn ni lawer o hwyl gyda'r athro yma, dosbarth 7N yr ydw i ynddo. Tybed beth mae'r N yn gynrychioli? O gret, rydyn ni'n cael yr amserlen nawr . Rwyf i wedi bod yn edrych ymlaen at hyn drwy'r bore. Un...dau tri...un deg pedair o wersi gwahanol. Sut yn y byd y galla i ddod i ben a'r holl waith cartre?


**BYD Y BOL**

Amser cinio'n barod. Gobeithio y bydd y bwyd yn well nag yn yr ysgol gynradd. Am ddewis gwych. Mi fydda i yma am oriau yn ceisio penderfynu beth i'w gael i'w fwyta.
Ar ol cinio hyfryd rwy i ar fy ffordd i'r wers dechnoleg, Ystafell 12. Ble yn y byd y mae honno? Gwell i mi ofyn i un o'r athrawon. Dydw i ddim eisiau bod yn hwyr yn y wers,
Mae'n chwarter i bedwar yn barod. Mae'r diwrnod wedi hedfan. Help, y bysiau!! O, dyna Gwenan. Mi fydd hi'n siwr o wybod y ffordd.
Dyma fi wedi cyrraedd adre'n ddiogel ac yn edrych ymlaen at ddiwrod arall diddorol yfory.

***RHYWBETH I'CH DYDDIADUR:***

# GWASANAETH NAW LLITH A CHAROL

Bydd Ysgol Glantaf yn cynnal "Gwasanaeth Naw Llith a Charol" yng nghapel y Tabernacl, yr Ais, nos Fercher, 20fed o Ragfyr. Estynnir gwahoddiad cynnes i holl Gymry'r ddinas i ymuno a'r ysgol i ddathlu gwyl y geni. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur.




**HELP LLAW** gan:

# YR ADRAN DAI

**BETHAN CARTWRIGHT**

***Cysylltwch a'r system larwm cymunedol. Gall achub eich bywyd!***

Dyna'r neges oddi wrth Ganolfan Larwm Cymunedol Cyngor y Ddinas sy'n trefnu gwasanaeth arbennig ar gyfer yr henoed a phobl anabl. Mae 3500 o bobl eisoes wedi cysylltu a'r cynllun sydd bellach yn gweithredu'n ddwyieithog, gyda'r bwriad o adael i bobl fyw bywydau annibynnol tra'n derbyn gofal 24 awr.

Mae'r larwm yn gweithio drwy linell ffon ac o gymorth mawr i bobl, yn enwedig os ydyn nhw'n gaeth i'w cartrefi. Gellir gweithredu'r teclyn o unrhyw le yn y ty neu'r ardd.

Os oes angen help ar rywun, does dim rhaid iddyn nhw wneud mwy na phwyso botwm ar y teleffon neu ar fwclis a bydd y teleffon wedyn yn deialu trwodd i'r Ganolfan Larwm lle mae tim o staff wedi eu hyfforddi i ddelio gydag unrhyw argyfwng. Mae'r ganolfan yn gallu cysylltu a theulu neu ffrindiau cyfagos i'w rhybuddio am unrhyw broblem. Efallai y bydd gofyn i'r ganolfan gysylltu a'r gwasanaethau brys neu yrru warden draw i sicrhau fod popeth yn iawn. Un o wardeniaid y ddinas yw'r Cymro Cymraeg, Paul Haines.




*Paul Haines*

Meddai Paul: "Fel aelodau eraill y tim, dw i'n ateb galwadau pobl ar draws y ddinas ac wrth gwrs mae'r gwasanaeth yn hanfodol ac yn cynnig tawelwch meddwl i'r rheiny sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r gwerthfawrogiad yn fwy byth pan fydd y Cymry yn gallu taro ar sgwrs Gymraeg. Meddyliaf am Agnes sy'n byw ym Maendy ac sy'n 87 oed. Wrth i mi gysylltu a hi ar y ffôn roedd hi braidd yn swil ar y cychwyn ond roedd yn llawn bywyd a theimlodd yn gartrefol pan glywodd lais warden Cymraeg ei iaith."

Mae'r gwasanaeth ar gael i bawb, boed nhw'n denantiaid i'r Cyngor neu beidio. I gael mwy o fanylion am y larwm neu i drefnu i'w brofi, ffoniwch Paul ar Caerdydd 624852 yn y ganolfan dai ym Mynachdy/ Os am wasanaeth Cymraeg gofynnwch i'r derbynnydd.

# LOUISE HODGSON

(portread gan

**B D HARRIES**)

**HYFRYD oedd gallu cyhoeddi yn rhifyn Hydref restr sylweddol o bobl leol fu'n llwyddiannus mewn amrywiol gystadlaethau yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn. Mae'n debyg fod y mwyafrif ohonynt yn adnabyddus i'n darllenwyr a'u doniau yn eu priod feysydd yn wybyddus eisoes. Carem felly y tro hwn roi sylw arbennig i un ohonynt sy, o bosibl, ddim mor adnabyddus (o leiaf hyd yn hyn), sef Mrs Louise Hodgson a enillodd wobr am baratoi tri llyfr byr a fyddai'n ddeunydd darllen addas ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2. Yr hyn sy'n ddiddorol ac yn nodedig yw'r ffaith mai dysgwraig ddiweddar iawn yw Louise.**

Un o Oldham, Sir Gaerhirfryn, ydyw yn wreiddiol a daeth i Gaerdydd yn 1980 gan i'w phriod ymgymryd â swydd newydd yn y ddinas. Mae hi erbyn hyn yn ddirprwy brifathrawes ysgol Danescourt ar ôl treulio cyfnod yn ysgol Heol Radnor yn Nhreganna.

## DIOLCH I'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL

I'r Cwricwlwm Cenedlaethol, beth bynnag ei wendidau yn ol rhai, y mae'r diolch iddi ymgymryd â dysgu Cymraeg. Oherwydd prinder dybryd athrawon cynradd Cymraeg eu hiaith yn y sir, a'r gorchymyn bod yn rhaid i bob ysgol ddysgu Cymraeg, bu'n rhaid i'r Awdurdod Addysg baratoi rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant-mewn-swydd i ddysgu Cymraeg i athrawon di-Gymraeg er mwyn galluogi'r Awdurdod i gydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Un diwrnod yr wythnos am 10 wythnos oedd y trefniant. Bu ymateb calonogol iawn o blith athrawon ac yr oedd Louise yn un a ymatebodd yn egniol ac yn frwdfrydig.

## CYHOEDDI EI GWAITH

Sylweddolodd fod yna brinder deunydd ac nad oedd llawer o'r deunydd a oedd ar gael yn ddigon atyniadol a chymwys. Dwed, â gwen, iddi deimlo y gallai hi wneud yn well, ond yn wahanol i lawer sy'n barod i fynegi'r un teimlad, aeth Louise ati ar fyrder i geisio gwella'r sefyllfa gyda chefnogaeth a help ymarferol rhai o athrawon bro'r Awdurdod a rhai asiantau lleol.

Erbyn hyn mae tipyn o'i gwaith wedi'i gyhoeddi yn



*Louise Hodgson gydag un o'i chymeriadau hoffus*

LLUN: Robin Griffith

Bore Da, ei phedwar llyfr am anturiaethau Dewi'r Dinosawr wedi eu cyfieithu i nifer o ieithoedd eraill a'r Cyd-bwyllgor Addysg ar fin cyhoeddi ei llyfr ar Delyth a'r Ddraig. Mae'r llyfrynnau hyn yn arbennig o ddeniadol ac yn sicr yn denu plant bach i ymhel â'r iaith. Da yw clywed ganddi ei bod yn awyddus i gynhyrchu mwy o ddeunydd tebyg a bod rhagor o storiau am Dewi'r Dinosaur eisoes ar y gweill.

Braint yw ei llongyfarch eto ar ei llwyddiant eisteddfodol, a diolch yn ddidwyll iddi am ei hydmrech i gyfoethogi'r maes pwysig hwn. Beth am i ragor o athrawon fentro i'r un maes? Mae brwdfrydedd Louise yn sicr yn heintus ac yn fodd i ysbrydoli eraill.

# GWNEWCH BOPETH YN GYMRAEG

**GARETH KIFF**

Mae'n bosib prynu unedau Hi-Fi neu beiriannau CD yn Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae Richer Sounds yn Heol Albany yn teimlo ei bod yn bwysig cynnig gwasanaeth dwyieithog i ddinasyddion Caerdydd. Mae Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith wedi bod ar flaen y gad i Gymreigio busnesau'r ardal am flynyddoedd ac mae'n dda dweud bod gan y busnes arbennig hwn agwedd iach tuag at y Gymraeg.

Dylai'r clod am hyn fynd i Alex Fisher, Rheolwr y siop, sydd am weld ei fusnes yn hollol ddwyieithog yn y pen draw. Ar hyn o bryd, mae Clare, un o aelodau'r staff, yn rhugl ei Chymraeg, ac mae'r lleill, gan gynnwys Alex ei hun, wedi ymaelodi a'r cynllun "Iaith/Gwaith".




*Alex Fisher (rheolwr) a Clare Barlow sydd yn siarad Cymraeg* LLUN: Robin Griffith

### Y GUINNESS BOOK OF WORLD RECORDS

Julian Richer a ddechreuodd y busnes hwn yn 1978. Yn ol y Guinness Book of World Records roedd y siop gyntaf yn Llundain yn enwog am mai hi oedd a'r gwerthiant mwyaf yn y byd am bob troedfedd sgwar. Roedd hon yn un o dair ar hugain o siopau eraill ar y pryd.

Mae'n cefnogi ymdrechion ei staff yng Nghymru gant y cant ac mae'n gweld y Gymraeg fel mantais fasnachol. Yn sicr, mae'r hinsawdd ieithyddol yn newid yn sydfrdanol. Nid rhwystr i fusnes yw'r Gymraeg erbyn hyn ond rhywbeth i ddenu cwsmeriaid. Mae Richer Sounds yn gosod patrwm pwysig i fusnesau eraill yng Nghymru.

# YR EGLWYS YNG NGHYMRU YN NULYN

Yn ddiweddar ymwelodd y Parchedig Aled Edwards, Ficer Eglwys Dewi Sant a Dulyn fel cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru. Roedd yno gynhadledd arbennig dan adran cenhadaeth Cyngor Eglwysi Gwledydd Prydain ac Iwerddon. Tra yno bu'n mwynhau cwmni Mrs Menna Green o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, y Parchedig Noel Davies o Cytun, y Parchedig Ioan Griffith a gynrychiolai'r Annibynwyr a'r Parchedig Jo Penberthy o Fwrdd Cenhadu'r Eglwys yng Nghymru.

Cafwyd cyfle i drafod dulliau newydd o genhadu yn ein byd a'n cymdeithas gyfoes. Braf, er enghraifft, oedd cael cyfle i wrando ar Gymuned Emaus yn trafod cerddoriaeth gyfoes a'r awydd am gymdeithas gydweithredol ar gyfer Cristnogion ifanc. Buddiol hefyd oedd gwrando ar ddarlithwyr o Iwerddon yn trafod natur a gofynion cenhadaeth yn eu plith.

Gan mai yn Nulyn y cynhaliwyd y cyfarfod manteisiwyd ar y cyfle i drafod datblygiadau diweddar yn y "Broses Heddwch". Cafwyd cyfraniadau godidog gan weinidog yr Eglwys Bresbyteraidd yn Nulyn ynghylch yr ymdrechion i wireddu hanfodion heddwch mewn cymdeithas ymranedig. Cafwyd cyfle i drafod perthnasedd ei neges i amryw o sefyllfaoedd eglwysi Prydain.

# BYD LLYFRAU Adolygiad gan **IFOR REES**



LLUN: Robin Griffith

Y Parchg. Ifor Rees, Rhiwbina, yn derbyn gradd M.A. Anrhydedd Prifysgol Cymru

## CHWYLDRO DUW A HOMILIAU ERAILL

Pennawd un o'r homiliau sydd yn y llyfr hwn a roes i'r awdur deitl i'r gyfrol sef Chwyldro Duw. Pa fath o chwyldro felly sydd ym meddwl yr awdur, Dewi Eirug Davies?

Ni cheir gwell diffiniad o'r chwykdro hwn na dyfynnu rhan o'r homili "Chwyldro Duw" sef: "yn wyth o'r gwledydd i'r dde o Panama, yr unig gymdeithas sydd yn lleisio'i gwrthwybeniad i raib y tirfeddianwyr sydd yn gorfodi saithdeg y cant o'r boblogaeth i fyw ar friwsion o fyrddau'r cyfoethogion - yw'r Eglwys; yn enwedig ei harweinyddion." Dyna'r thema gyffredinol sy'n sail i'r chwe deg a mwy o homiliau'r awdur; sef mai lle'r Eglwys yw bod ar ochr rhai gorthrymedig y ddaear.

Ac yn yr homiliau i gyd, rhyw chwe deg a mwy ohonyn nhw, fe ddaw'r prif thema i'r brig - boed yn eglurebau ac anecdotau, neu brofiad personol yr awdur. Da gennyf fod Dewi wedi galw'r llithiau yn "homiliau" gan arfer gair oedd yn gyffredin iawn yn y Gymru ddiwinyddol a fu. Yn yr homiliau a gyhoeddwyd yng nghylchgronau'r canrifoedd a fu roedd yr arddull yn feichus o drymaidd a'r iaith yn flinderus o haniaethol. Nid felly yr homiliau hyn - yr arddull yn sgyrsiol a diriaethol, a'r iaith yn glir a chryno a chyfoethog. Ar gyfer pob homili mae darn o ysgrythur perthnasol iawn, a'r gweddiau a'r emynau ar derfyn pob llith yn addas iawn hefyd.

Mae'r cyfan yn gyfle i ni fyfyrio'n addolgar ar agweddau amrywiol y Ffydd Ddiffuant. Cefais flas mawr wrth ddarllen y gyfrol i gyd. Ond mae'n llyfr y gall dyn droi ato am gynhaliaeth ddefosiynol - pa homiliau bynnag a ddewisa eu darllen. Gall y gyfrol hefyd fod o gryn gymorth mewn oedfa o addoli cyhoeddus. Hyderaf y gwna pob ysgrifennydd eglwys a'i gyd-swyddogion ddefnyddio'r llyfr hwn yn helaeth; bydd yn gymorth hawdd iddynt mewn cyfyngder - pan na fydd ganddynt weinidog i gynnal oedfa.

Diolch i'r Parchedig Dewi Eirug Davies am gyfrol hynod ddiddorol ac un sy'n berthnasol iawn i'n hoes ni. Fe'i cyhoeddir am £3.95 gan Wasg Tŷ John Penri.

## MAC

Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth daeth Rhian Ithel, Rhiwbeina i'r brig am ddyddiadur dychmygol ar gyfer y rhai yn eu harddedgau. Seiliodd ei gwaith ar blentyn o Wynedd, gan ysgrifennu o brofiad gan i'w thad Y Parchedig Huw Ethal, fod yn weinidog ym Mhorthmadog rai blynyddoedd yn ol. Dechrau digon pryderus mae Mac y nofel hon yn ei gael gyda'r teulu yn gorfod symud i Gaerdydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Trwy lwc, roedd wedi cael anrheg gan ei Nain - dyddiadur i'w gadw'n ddiddan. Trwy lwc i ninnau hefyd o achos, heb y dyddiadur hwn fydden ni ddim yn gwybod dim am gampau Mac.Mae'r gwaith wedi cael ei gyhoeddi o dan enw'r llanc. Mae gan Wasg Gomer ac mae'n fargen am £4.50.

Mae Rhian a'i phriod, Berwyn Prys Jones yn rhedeg Cwmni Cyfieithu ar y cyd.

## LLYGAD Y DYDD

Pan oedd y rhifyn hwn o'r Dinesydd yn mynd i'r wasg roedd Gwasg Gwynedd ar fin cyhoeddi nofel o waith Kathleen Wood, Cyncoed ac aelod yng Nghapel y Crwys. Mae'r nofel ar ffurf dyddiadur gwraig ddiddorol iawn sef Margaret o Anjou, Ffrainc. Daeth hon yn wraig i'r brenin Harri VI ar adeg gythryblus iawn yn hanes Lloegr. Mae Mrs Wood wedi canolbwyntio ar rai o weddau Cymreig hanes Margaret (Llygad y Dydd) yn ei gwaith. Er enghraifft, treuliodd beth amser yng nghastell Harlech ac roedd yn gyfarwydd a Siasbar Tudur, ewythr Harri VII. Ac roedd yn gwybod tipyn am hynt a helynt Owain Tudur yn ogystal. Anrheg Nadolig werth chweil.

## YN ERBYN YR HAUL

Nos Iau 26 Hydref lawnsiodd Gwasg Gee a Chyngor Llyfrau Cymru gyfrol Mrs Rhiain Phillips, Radyr, Yn Erbyn yr Haul. Am flynyddoedd, fe fu Mrs Phillips yn teithio gyda'i phriod, yr Athro Glyn O Phillips, drwy'r byd, a hanes ei theithiau wrth fynd "yn erbyn yr haul" o wlad i wlad a geir yn y gyfrol. Mae'n dechrau ym Mro Ardudwy lle'i ganwyd, ond yna awn gyda hi o fannau cymharol agos fel Stockholm a Berlin i fannau fel Bombay, Bangkok a Kuala Lumpur ym mhen draw'r byd.

## GEIRIADUR YR ACADEMI GYMREIG

Yng ngwesty'r Royal ar ddechrau Hydref lawnsiwyd geiriadur hir-ddisgwyliedig yr Academi Gymreig. Fe fu ar y gweill am 17 blynedd, gyda'r Dr. Bruce Griffiths, Bangor wrth y llyw. Ond fel y gwelir yn y "Diolchiadau" bu nifer mawr o bobl y ddinas yn estyn help llaw iddo mewn nifer o wahanbol flyrdd.

Cadeiriwyd y noson gan Harri Pritchard Jones, Cadeirydd yr Academi Gymreig. Rhoddodd ef ychydig o hanes y fenter fawr hon o 1,800 o dudalennau. Cafwyd geiriau pellach gan y Dr Bruce Griffiths a Mr Ned Thomas, pennaeth Gwasg y Brifysgol yma yn y brifddinas. Gyda'r Nadolig wrth y drws, fe fydd llawer yn edrych ar hwn sy'n costio £40 fel anrheg sylweddol.

CHWARAEON

Dan ofal **THOMAS DAVIES**

**MAE ysbryd da a hen ddigon o frwdfrydedd ymysg Clybiau Pel-droed a Rygbi Cymry Cymraeg y Brifddinas. Dyma sy gan Hywel Price i'w ddweud am Glwb y Bel Gron, Clwb Cymric:**

## Clwb Cymric (Tymor 1995-1996)

Ym mis Medi prin y gallai unrhyw aelod o'r clwb fod wedi rhagweld dechreuad ysgubol y ddau dim i ymgyrch 1995-1996 yng Nghyngrair Caerdydd a'r cylch. Y mae'r tim cyntaf yn ail yn y cynghrair (Uwchadran) wedi sicrhau pedair buddugoliaeth, un gem gyfartal a cholli un, tra bod yr ail dim ar frig y bedwaredd adran ar ol casglu naw o'r deg pwynt ac wedi ennill dwy gem gwpan.

O dan arweiniad Dilwyn Owen (capten yn tim cyntaf) ac Alan Edwards (capten yr ail dim) y mae'r clwb ar ol colli tri chwaraewr profiadol trwy yr haf wedi mynd ati i atynnu chwaraewyr ifanc, newydd i'r clwb. Yn eu plith mae tri o fyfyrwyr dosbarth Chwech Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Owain Kerton, Gethin Mills a Geraint Jones), Andreas Hughes sy'n athro yn Ysgol Bechgyn y Barri ac Iwan Jones. Braf yw nodi bod y mwyafrif wedi sgorio eisoes i'r clwb.

Cynhelir sesiynau ymarfer rhwng 6 ac 8 o'r gloch, nos Fercher yng Ngholeg Glan Hafren ac mae croeso mawr i chwaraewyr newydd. Am fanylion pellach cysyllter a'r capteiniaid ar y rhifau ffon canlynol:

Dilwyn Owen: 01443 407245 (oriau gwaith)

Alan Edwards: 01222 225298

***Cyfraniad Gareth Hall Williams ar ran bechgyn y Bel Hirgron yw hwn:***

## Y Clwb yn Mynd o Nerth i Nerth

Ar ol ennill dyrchafiad i'r Cynghrair Cyntaf llynedd mae Clwb Rygbi Cymry Cymraeg Caerdydd wedi cael cychwyn addawol iawn i'r tymor. Mae'r newid o fod yn gem ddi-dal i oes yr arian wedi golygu newid agwedd, yn enwedig oddi ar y cae. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio gosod trefn ar y Clwb, gan chwilio am nawdd i dalu am offer a chyfleusterau, a'r aelodau eu hunain yn frwdfrydig yn yr ymgais i osod sail gadarn i'r Clwb.

Ac felly erbyn diwedd Medi mae'r Clwb yn gallu galw ar wasanaeth dros 50 o chwaraewyr gan gynnwys aelodau newydd o glybiau Llandaf, Ystum Taf (Gogledd Llandaf), Y Fardre ac Aberaeron. Ar y cae enillodd y Clwb ei gem gyntaf yn y Cynghrair o 21 - 20 yn erbyn Caerau Elai, gyda John Hayes yn amlwg. Dysgwyd gwers gan Lanrymni ar sut i chwarae gem agored a chyflym; er pob clod i'r Clwb am i ni gadw o fewn un sgor am lawer o'r gem. Daeth buddugoliaeth ardderchog yn erbyn Barry Plastics (39-5) a'r Clwb yn sgorio 7 cais a chwarae math o rygbi nas gwelwyd ar gaeau Llandaf ers blynyddoedd. Cychwyn cymysglyd a gafodd yr ail XV o dan arweiniad Emyr Morgan, gan ennill un, colli un ac un yn gyfartal. Er hyn mae'r 2il XV yn falch rhoi cyfle i bawb yn gynnar yn y flwyddyn a daw gwell canlyniadau wrth i gnewyllyn y tim ddod i'r amlwg. Rhaid diolch i'r canlynol am eu cefnogaeth: Eryl Jones, (Ymgynghorydd Yswiriant), Darran W Phillips (Yswiriant Allied Dunbar) a David Parry Jones, Clwb y Cameo a Lluniau Lliw.

## Cynghrair y Cwrw

Cafwyd dechrau gwych i'r tymor Heinecen. Y rheswm am y chwarae cyffrous, medden nhw, oedd y pwyntiau a roddir am sgorio tri chais (1), pum cais (2) a saith cais (3), a bod rhai chwaraewyr ac eraill yn amau cyfiawnder y pwyntiau hyn. Ddiwedd Medi aethom i'r Strade - pedair mil ar ddeg ohonom, i weld y ddau glwb oedd ar y pryd heb golli, ac erbyn pedwar o'r gloch Caerdydd yn unig oedd â record o gant y cant. Ond pedwerydd oeddynt yn yr Adran Gyntaf a Llanelli'n ail, gyda Phontypridd yn gyntaf ac Abertawe'n drydydd, er bod Caerdydd wedi curo Pontypridd o 36-31 ac Abertawe o 50-13 yn gynharach yn y mis. Beth bynnag, caiff dilynwyr y Brifddinas gysur wrth wybod bod eu clwb wedi trechu pedwar o'r chwe chlwb cryfaf (Castell-nedd a'r tri uwch eu pennau) ym mis cyntaf y tymor a bydd hi'n haws o lawer ennill pwyntiau yn erbyn y pedwar isaf.

'Roeddwn i'n hynod o siomedig ar Y Strade; ar ol gweld pedwar cais Caerdydd yn erbyn Pontypridd ac wyth cais Llanelli yn erbyn Treorci, yr oeddwn i'n sicr y gwelid gornest gyffrous. Y dyfarnwr oedd Chris White o Cheltenham a'i brynhawn ef oedd hi - chwythai ei chwibanogl heb feddwl am fantais i'r tim na throseddai, a bu 34 o giciau cosb. Ni ellid chwarae rygbi creadigol o dan y fath ddyfarnu'n ol hyfforddwr Llanelli, Gareth Jenkins, ac ni allwn lai na chytuno ag ef. Ond 'roedd safon y rycio'n warthus gyda'r ddau dim yn syrthio ar y bel dro ar ol tro heb geisio aros ar eu traed. Rhaid i'n clybiau ddysgu sut i chwarae o dan bwysedd a hyd nes iddynt wneud hyn ni welir gwelliant yn safon y tim cenedlaethol.

## FFARWEL, BENCAMPWRIAETH BOCSIO Y BYD

Pan oedd Caerdydd ar y Strade, yr oedd sgwar bocsio ar eu cae gartref ac ynddo collodd Steve Robinson ei Bencampwriaeth Bwysau Plu i'r Sais - os Sais hefyd - Nasim Hamed. Ni chwrddais a'r bocsiwr o Dre-lai o'r blaen ond mae hi'n amlwg ei fod yn ddyn syber. Rhaid cael gair ag ef ar gyfer y rhifyn nesaf.